

# Y Cyfarfod Llawn

---

Dyddiad y cyfarfod:  
**Dydd Mawrth, 10 Ionawr 2012**

Amser y cyfarfod:  
**13:30**

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



---

## Agenda

(36)(v3)

---

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y cwestiynau](#)

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

[Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Comisiynydd Pobl Hyn Cymru: Gofal gydag Urddas? – Cynnydd (30 munud)

### 4. Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain (Hysbysebu a Masnachu) (Cymru) 2011 (15 munud)

**NDM4880 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain (Hysbysebu a Masnachu) (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Tachwedd 2011.

### Dogfennau Ategol

[Rheoliadau Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain \(Hysbysebu a Masnachu\) \(Cymru\) 2012](#)

[Memorandwm Esboniadol](#) – Saesneg yn unig

[Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#)

[Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol at y Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ynghylch rhinweddau'r Offeryn Statudol](#)

## **5. Dadl ar y Setliad Llywodraeth Leol (60 munud)**

### **NDM4881 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2012–2013 (Setliad Terfynol – Cynghorau), a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Rhagfyr 2011.

#### **Dogfen Ategol**

[Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol \(Rhif 1\) 2012–2013 \(Setliad Terfynol – Cynghorau\)](#)

## **6. Dadl ar Raglenni Ewropeaidd (60 munud)**

### **NDM4882 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cyfraniad cadarnhaol y mae Rhaglenni Ewropeaidd cyfredol a blaenorol yn ei wneud ac wedi'i wneud;
2. Yn croesawu'r rôl hanfodol y mae arian Ewropeaidd, gan gynnwys y Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Cronfeydd Strwythurol, yn ei chwarae o ran cefnogi economi Cymru;
3. Yn cydnabod bod chwarae rhan lawn a rhagweithiol o fewn yr UE yn dod â manteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ar wahân i'r rheini sy'n deillio o'r Rhaglenni Ewropeaidd;
4. Yn nodi â phryder benderfyniad Llywodraeth y DU i arfer ei feto yn ystod trafodaethau'r UE ym Mrwsel ar 9 Rhagfyr 2011ac yn annog Llywodraeth y DU i weithio mewn ffordd adeiladol gydag Aelod-wladwriaethau eraill i sicrhau bod y DU yn mynd ati unwaith eto i chwarae rôl ganolog yn yr UE wrth lunio polisi a gweinyddu Rhaglenni Ewropeaidd, yn ogystal ag wrth ddatblygu ymhellach bolisiau economaidd, diwylliannol a chymdeithasol Ewropeaidd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

### **Gwelliant 1 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu bod un Llywodraeth Cymru ar ôl y llall wedi methu â manteisio i'r eithaf ar botensial rhaglenni'r UE a bod rhannau o Gymru'n dal i fod ymysg y tlotaf yn yr Undeb Ewropeaidd.

*[os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol]*

## **Gwelliant 2 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi'r cyfraniad pwysig a wnaethpwyd gan Raglenni Ewropeaidd ac yn cydnabod ymhellach bwysigrwydd y farchnad Ewropeaidd i'n heconomi, gyda 39.9 y cant o allforion Cymru yn mynd i wledydd yr UE.

## **Gwelliant 3 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ym mhwynt 1 ar ôl 'wedi'i wneud' rhoi 'ond hefyd yn nodi methiant Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r rhaglenni hynny'n effeithiol i wella ffyniant economaidd cymharol Cymru'.

## **Gwelliant 4 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt newydd ar ôl pwynt 2 ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu buddiannau cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad â'r trafodaethau ar raglenni Ewropeaidd a pholisi Ewropeaidd.

## **Gwelliant 5 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

4. Yn croesawu penderfyniad Llywodraeth y DU i arfer ei fetu yn ystod y trafodaethau ym Mrwsel ar 9 Rhagfyr 2011 ac yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth y DU i weithredu er budd gorau pobl Cymru a Phrydain yn nhrefnadaethau cyllido'r UE.

*[os derbynnir gwelliant 5, bydd gwelliant 6 yn cael ei ddad-ddethol]*

## **Gwelliant 6 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ym mhwynt 4 dileu 'yn mynd ati unwaith eto i chwarae' a rhoi 'yn chwarae'.

## **Gwelliant 7 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â Llywodraeth y DU mewn ffordd adeiladol er mwyn gweithio er budd cenedlaethol Cymru ac i fanteisio i'r eithaf ar fuddiannau rhaglenni'r UE i Gymru.

## **Cyfnod Pleidleisio**

### **7. Dadl Fer (30 munud)**

**NDM4883 Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru):** Gwneud trafndiaeth gynaliadwy'n haws ar gyfer cymunedau gwledig

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mercher, 11 Ionawr 2012